| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 23 Ebrill 2024 |
| **Aelod/Sg. Arweiniol** | Y Cynghorydd Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth<br>Liz Grieve, Pennaeth y Gwasanaeth Tai a Chymunedau |
| **Awdur yr Adroddiad** | Craig Berry – Cyd Reolwr Gwasanaethau Archif |
| **Teitl** | Prosiect Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae ar y Cyngor ddyletswydd ddeddfwriaethol i gasglu, cadw a sicrhau hygyrchedd dogfennau o bwysigrwydd hanesyddol. Ar hyn o bryd mae deunyddiau archif Sir Ddinbych yn cael eu cadw yng Ngharchar Rhuthun. Mae'r lle storio bellach yn llawn ac mae'r systemau rheolaeth amgylcheddol diffodd tân (sydd yn angenrheidiol i gynnal ansawdd yr aer ac i ddiogelu'r deunyddiau) wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Nid yw'r trefniadau presennol felly'n gynaliadwy, ac mae angen dod o hyd i ateb amgen, hirdymor.

1.2. Mae CSDd a CSyFf wedi bod yn gweithio ar y cyd ers nifer o flynyddoedd i ddod o hyd i ateb hirdymor a chynaliadwy Mae'r ddau Gyngor yn wynebu problemau tebyg gydag adeiladau nad ydynt bellach yn addas i'r pwrpas o safbwynt storio deunyddiau archif. Mae'r cydweithio hwn wedi arwain at greu gwasanaeth ar y cyd o'r enw Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru (AGDdC).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Ym mis Tachwedd 2020 ac eto ym mis Hydref 2023, awdurdododd y Cabinet gyflwyniad cais am gyllid ar y cyd gyda Chyngor Sir y Fflint i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (CTLG) Cymru, yn ceisio grant cyfalaf o ££7,371,397 i ariannu adeilad di-garbon pwrpasol ar gampws Theatr Clwyd, yr Wyddgrug. Roedd hyn ar y

ddealltwriaeth y byddai'n rhaid i CSDd a CSyFF gyfrannu cyfalaf cyfatebol o £2,052,358 a £3,078,537 yn y drefn honno

2.2. Roedd y cais am grant gan CTLG yn llwyddiannus gyda chynnig o grant o £7,371,397 tuag ag gost y cyfleuster ar y cyd newydd hwn. Mae'r grant yn gyfle i ddarparu cyfleuster archif newydd sbon, addas i'r pwrpas ar gyfer Sir Ddinbych ar gyfer yr hanner can mlynedd nesaf ar gost gyfalaf o £2,052,358, i'w ariannu drwy fenthyca darbodus.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei gefnogaeth i AGDdC dderbyn y cynnig o grant o £7,371,397 gan CTLG, yn amodol ar i Gabinet CSyFf wneud yr un fath.

3.2. Bod y Cabinet yn cadarnhau'r ymrwymiad i CSDd gyfrannu cyllid cyfatebol o £2,052,358 o gyllid cyfalaf a fydd yn cael ei dalu amdano drwy fenthyca darbodus yn amodol ar i CSyFf gadarnhau eu bod yn derbyn y grant a'u cyfraniad cyfalaf hwythau. Disgwylir mai uchafswm y gost refeniw i CSDd fydd tua £136k.

3.3. Bod y Cabinet yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog Gweithredol (PSG) ac Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth lofnodi Cytundeb Cydweithio sy'n cynnwys adeiladu'r cyfleuster newydd, gweithrediad AGDdC a Phenawdau'r Telerau ar gyfer prydlesu'r adeilad newydd, cyn belled nad yw'r gost yn fwy na'r gyllideb hollgyngwysfawr o £12,892,294.

3.4. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae wedi'i hen gydnabod bod gan CSDd broblem o ran gwneud trefniadau priodol ar gyfer storio, gofalu am a diogelu dogfennau archifol. Mae hyn nid yn unig yn ofyniad statudol, mae'r deunyddiau hyn yn werthfawr ac yn fregus ac mae iddynt werth hanesyddol a diwylliannol mawr. Cydnabu'r Cabinet blaenorol (ym mis Tachwedd 2020) a'r Cabinet cyfredol (ym mis Hydref 2023) nad yw'r cyfleuster presennol yn yr Hen Garchar yn Rhuthun bellach yn addas i'r pwrpas a bod angen ateb hirdymor a chynaliadwy. Cydnabuwyd hefyd ei bod yn anochel y byddai cost ariannol ynghlwm ag unrhyw ateb.

4.2. Mae'r holl opsiynau rhesymol ar gyfer diogelu deunyddiau archif gwerthfawr yn yr hirdymor wedi eu hystyried (gw. Atodiad 2). Yr ateb mwyaf cost-effeithiol a chynaliadwy yw'r un i ddarparu canolfan archifau wedi'i hadeiladu'n arbennig i'r pwrpas yn yr Wyddgrug a fydd hefyd yn hwyluso ymgysylltiad cymunedol ehangach (gw. atodiad 3) ochr yn ochr a chadw Archif yn Rhuthun. Bydd yr opsiwn hwn yn rhyddhau lle yn y carchar ac yn caniatáu datblygu profiad gwell i ymwelwyr gan ddenu mwy o ymwelwyr a chreu mwy o incwm i'r ased treftadaeth pwysig hwn. Ar y sail hon y rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i CSDd gyflwyno'r cais am grant CTLG ar gyfer cyfleuster archifau ar y cyd newydd yn yr Wyddgrug. Ar 29 Mawrth 2024 cawsom wybod gan CTGL ein bod wedi llwyddo yn ein cais.

4.3. Mae'n glir nad oes dewis "gwneud dim" gan fod y trefniadau presennol yn methu ac felly ni allwn fodloni ein dyletswydd statudol. Mae costau sylweddol ynghlwm â'r holl opsiynau sydd ar gael, ac mae i bob un risgiau cysylltiedig â chynnydd posib mewn costau, tarfu ar wasanaethau a cholli achrediad ac ati. Nid oes unrhyw ddatrysiad delfrydol, heb gostau. Bydd yr holl opsiynau eraill naill ai'n costio mwy i CSDd i ddechrau (neu yn yr hirdymor) na'r cyfleuster ar y cyd yn yr Wyddgrug, neu'n costio fymryn yn llai ond yn arwain at gyfleuster a gwasanaeth archifau llawer salach.

4.4. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu Cytundeb Cydweithredu a fydd yn rheoli'r trefniadau rhwng CSDd a CSyFf o ran darpariaeth y prosiect a gweithrediad y gwasanaeth ar y cyd. Bydd yn cynnwys Penawdau'r Telerau ar gyfer les yr ganolfan archifau newydd yn yr Wyddgrug. Mae'r cytundebau hyn yn cael eu datblygu gan dîm amlddisgyblaeth o swyddogion o'r ddau awdurdod a byddant wedi'u cwblhau'n ddiweddarach y mis hwn yn unol ag amodau'r grant.

4.5. Disgwylir y bydd gwaith cysylltiedig â'r prosiect yn dechrau ganol mis Mai (gw. Atodiad 4): bydd penderfyniad dirprwyedig yn galluogi'r prosiectau i ddechrau'n brydlon ac yn lleihau'r risg o unrhyw gostau ychwanegol a allent godi o ganlyniad i oedi.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem

5.1. Mae'r prosiect yn cefnogi Sir Ddinbych iachach, hapusach a mwy gofalgar

5.2. Mae'r prosiect wedi'i restru yng Nghynllun Corfforaethol CSDd - "Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaeth archifau gwell a chynaliadwy ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru."

5.3. Bydd y prosiect yn gwneud o leiaf gyfraniad niwtral (ond yn fwy tebygol o fod yn gyfraniad positif) tuag at nod y Cyngor o fod yn ddi-garbon ac yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae CSDd wedi cytuno i wneud cyfraniad ariannol cyfatebol o £2,052,358. Byddai'r cyfraniad cyfalaf hwn yn cael ei wneud dros gamau'r prosiect (sydd i'w gweld yn Atodiad 4) o flynyddoedd ariannol 2024/25 i 2023/28 a'i ariannu o fenthyca. Mae'r costau refeniw cysylltiedig â'r benthyca'n gofyn bod pwysau'n cael ei gynnwys yn y gyllideb ariannu cyfalaf sy'n codi i tua £136k pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau (yn seiliedig ar gyfraddau llog cyfredol a benthyca dros gyfnod o 25 mlynedd, fel sy'n arferol gan y cyngor). Er hynny y bwriad yw y bydd y Cytundeb Cydweithredu a Phenawdau'r Telerau ar gyfer les yr adeilad yn eu lle am hanner can mlynedd.

6.2 Bydd cymorth technegol ar gyfer y prosiect gan amrywiol adrannau ar draws y Cyngor yn parhau i fod yn angenrheidiol, yn cynnwys cefnogaeth yr Unedau Cyfreithiol, Ariannol, AD, TGCh, Dylunio ac Adeiladu, Caffael, Cynnal Adeiladau a'r Gwasanaethau Treftadaeth

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Gan fod AGDdC yn wasanaeth is-ranbarthol, cafodd yr Asesiad o'r Effaith ar Les ei ystyried ar draws y ddwy sir. Mae'r asesiad i'w weld yn Atodiad 1 ac mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

i. Sir Ddinbych a Sir y Fflint llewyrchus - Cadarnhaol
ii. Sir Ddinbych a Sir y Fflint gwydn – Niwtral
iii. Sir Ddinbych a Sir y Fflint iachach - Cadarnhaol
iv. Sir Ddinbych a Sir y Fflint mwy cyfartal - Cadarnhaol
v. Sir Ddinbych a Sir y Fflint o gymunedau cydlynol - Cadarnhaol
vi. Sir Ddinbych a Sir y Fflint â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - Cadarnhaol
vii. Sir Ddinbych a Sir y Fflint sy'n gyfrifol yn fyd-eang – Niwtral

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- Y Tîm Gweithredol Corfforaethol, Hydref 2022
- Grŵp Gwella Gwasanaeth, Medi 2019, Ionawr 2022
- Cyfarfodydd Briffio'r Cabinet - Tachwedd 2018, Hydref 2019, Tachwedd 2020, Ionawr 2023, Medi 2023, Ebrill 2024
- Cabinet, Tachwedd 2020, Hydref 2023
- Grŵp Craffu Cyfalaf, Medi 2023
- Grŵp Rheoli Asedau - Gorffennaf 2019
- Pwyllgor Craffu Cymunedau – Hydref 2019 a Hydref 2020
- Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun - Hydref 2020 a Thachwedd 2022
- Arolygon ar-lein y cyhoedd (2019 a 2020)

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Gwnaed y penderfyniad i gymeradwyo'r prosiect mewn egwyddor ym mis Hydref 2023 gan ystyried yr heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Roedd y penderfyniad hwnnw yn ystyried amrywiaeth o opsiynau a'r casgliad oedd nad oes unrhyw opsiwn 'di-gost' neu 'gost-isel', a bod gan yr opsiwn a ffefrir y fantais o ddenu cyllid allanol arwyddocaol ac ased s fydd yn addas i'r pwrpas yn yr hirdymor. Mae gwaith yn parhau yn ystod cam datblygu'r cynllun i gadarnhau manylion strwythur y gwasanaeth newydd ac union gostau rhedeg yr adeilad. Gobeithir y bydd y costau hyn o fewn y dyraniad ariannol presennol, ond ni ellir gwarantu hyn hyd nes bydd y gwaith manwl wedi'i wneud. Caiff y Cabinet gyfle i adolygu'r cynigion hyn unwaith y maent wedi'u cwblhau.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Bydd y cytundebau cydweithio a phrydlesu'n rhoi sicrwydd i CSDd ynghylch y cyd-drefniadau gwasanaeth ac adeiladu dros gyfnod o hanner can mlynedd.

10.2 Mae cofrestr risg ar wahân wedi'i sefydlu ar gyfer y prosiect.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) - yn rhoi Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i'r Awdurdodau Lleol

11..2 Deddf Llywodraeth Leol (Cofnodion) 1962 (i) – mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod cofnodion sydd yn eu meddiant ar gael i'w hastudio a (ii) rhaid cyfrannu at dreuliau unigolion sy'n gofalu am gofnodion lleol.

11.3 Mae Adran 224 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn bod yr holl brif gynghorau yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer gofal a chadwraeth unrhyw ddogfennau.